# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Christine Richards | Adran Etholiadol: | Llwchwr Isaf |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Roeddwn yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion lleol ac achosion personol i bobl yn Llwchwr Isaf trwy gydol y flwyddyn.

Sicrheais y gall preswylwyr lleol gysylltu â mi'n hawdd. Cynhaliais gymorthfeydd rheolaidd ym Mhafiliwn Parc Williams ac roeddwn yn mynd am dro yn y ward pryd bynnag y gallwn. Hysbysebais gymorthfeydd ar Facebook.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, defnyddiais fy lwfans amgylcheddol cynghorydd i barhau â'r cynllun blodau gwyllt ac ariannu gwelliannau i Barc Williams. Roeddwn (ac rwyf o hyd) yn Gynghorydd Tref Llwchwr ac yn gweithio gyda chynghorwyr tref i gefnogi mentrau a gweithgareddau lleol, gan gynnwys codi sbwriel. Parheais i fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer Llwchwr Isaf a cheisio fy ngorau glas i sicrhau bod preswylwyr lleol yn dweud eu dweud. Cyhoeddais gylchlythyrau eto i roi gwybod i breswylwyr lleol am fy ngweithgareddau a'm pryderon a mentrau lleol.

Llywodraethwr Ysgol Gynradd Casllwchwr, Ysgol Gyfun Penyrheol a Choleg Gŵyr Abertawe.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

2015/16 - Rwyf wedi bod yn absennol oherwydd rhesymau teuluol, gan gefnogi fy nhad oedrannus. Hefyd, torrais fy migwrn ac nid wyf wedi gallu mynd i gyfarfodydd.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 8 | / | 14 | 57 | % |
| Cabinet | 7 | / | 15 | 47 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 3 | / | 5 | 60 | % |
| Y Cyngor | 10 | / | 18 | 56 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr (Partneriaeth Preswylwyr) | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Ymddiriedolwyr Cronfa Amwynderau'r Nadolig | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **30** | **/** | **61** | 49 | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Yn fy rôl fel Dirprwy Arweinydd, cefnogais Arweinydd y Cyngor a dirprwyo ar ei ran.

Mae fy mhortffolio Cabinet yn cynnwys: Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Theuluoedd; Chwarae; Gwasanaethau Ieuenctid a Hyrwyddo Cynhwysiad Ieuenctid; Ymyrryd ac Atal Cynnar; Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid; Dinasyddiaeth Ieuenctid; Hawliau Plant [gan gynnwys Hyrwyddwr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac Ysgolion sy'n Parchu Hawliau]; Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant [NEETS - Cyswllt ag addysg]; Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol; Bwrdd Plant a Phobl Ifanc; Dechrau'n Deg.

Roeddwn yn cadeirio (ac rwy'n dal i gadeirio) Bwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Rheoli Stadiwm Abertawe [Stadiwm Liberty]. Roeddwn hefyd yn aelod o gyrff a byrddau partneriaeth allanol amrywiol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyd-gyngor Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol/Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Abertawe a'r Bwrdd Cydnerthu.

Roeddwn (ac rwyf o hyd) yr Aelod Arweiniol dros Ddiogelu [cadw pobl yn ddiogel] Oedolion a Phlant a'r Cynghorydd-Hyrwyddwr dros Blant a Phobl Ifanc.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r hyfforddiant canlynol:

04/02/2016 – Cefnogi Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn ein Hysgolion (Hyfforddiant Llywodraethwyr)
02/06/2015 – Hyfforddiant Cyfryngau a Sgiliau Cyfweliad
12/05/2015 – Ymwybyddiaeth o Wrthgaethwasiaeth a Masnachu Pobl

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Aelod prysur o grŵp Cyfeillion Parc Williams ac ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Tref Casllwchwr – Hen Neuadd y Dref, Casllwchwr.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £37,000.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| |
|---|
| Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma: http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 17.05.2016 |